# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion cryno: HWLG(3)-20-10 : 1 Rhagfyr 2010

Gellir gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_01_12_2010&t=0

**Amser: 09.00 – 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jonathan Morgan, Gogledd Caerdydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Veronica German, Dwyrain De Cymru
Irene James, Islwyn (Eitemau 2-5 yn unig)
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones, Llanelli
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Sandy Mewies, Delyn (Eitemau 1 a 2 yn unig)
Nick Ramsay, Mynwy

### Tystion

Elwyn Price-Morris, Prif Weithredwr Dros Dro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Eitem 2)
Carl James, Cyfarwyddwr Datblygu Gwasanaethau (Eitem 2)
Dr Eamonn Jessup, Is-gadeirydd, Pwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru (Eitem 3)
Pat Billingham, Prif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (Eitem 4)
Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (Eitem 4)
Christine Jones, Dirprwy Brif Swyddog, Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr (Eitem 4)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Steve Boyce, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd

1.1 Gofynnodd Clerc y Pwyllgor am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd, yn unol â Rheol Sefydlog 10.18

1.2 Enwebwyd Jonathan Morgan gan Dai Lloyd; ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Cafodd Jonathan Morgan ei ethol yn Gadeirydd.

1.3 Bu'r Cadeirydd yn talu teyrnged i waith Darren Millar, y Cadeirydd blaenorol.

### Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i Andrew R.T. Davies am ei waith ar y Pwyllgor, a chroesawodd Nick Ramsay, a fydd yn cymryd ei le.

### Eitem 3: Ymchwiliad i adolygiadau'r GIG: Casglu tystiolaeth

#### Papur: HWLG(3)-20-10-p1

3.1 Atebodd y tystion gwestiynau'r Pwyllgor am y broses o ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau'r GIG yng ngogledd Cymru; adolygiadau o wasanaethau a wneir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar gynnal adolygiadau'r GIG.

### Eitem 4: Ymchwiliad i adolygiadau'r GIG: Casglu tystiolaeth

#### Papur: HWLG(3)-20-10-p2

4.1 Atebodd y tystion gwestiynau'r Pwyllgor am gynnwys ymarferwyr gofal sylfaenol mewn adolygiadau o wasanaethau a wneir gan

Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar gynnal adolygiadau'r GIG.

### Eitem 5: Ymchwiliad i adolygiadau'r GIG: Casglu tystiolaeth

**Papur: HWLG(3)-20-10-p3**

5.1 Atebodd y tystion gwestiynau'r Pwyllgor am rôl y Cyngor Iechyd Cymuned wrth ymgynghori â'r cyhoedd ar wasanaethau'r GIG; adolygiadau o wasanaethau a wneir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar gynnal adolygiadau'r GIG.

### Eitem 6: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer eitem 6

6.1 Cynigiodd y Cadeirydd, o dan Reol Sefydlog 10.37, i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn trafod materion allweddol ynghylch yr ymchwiliad i driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr y lluoedd arfog.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### Camau i'w cymryd

Bydd y tîm clercio'n drafftio'r adroddiad, gan gynnwys gwelliannau'r Aelodau.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddrafftio papurau cwmpasu ar gyfer ymchwiliadau posibl yn y dyfodol.

### 7: Papurau a nodwyd

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

HWLG(3)-20-10-p4 Llythyr gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Adolygu'r gwasanaethau ystum corff a symudedd

HWLG(3)-20-10-p5 Llythyr gan Gymdeithas Feddygol Prydain ar yr ymchwiliad i driniaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma i gyn-filwyr y lluoedd arfog

HWLG(3)-19-10 Cofnodion y cyfarfod blaenorol